# CYNLLUN MARCIO TGAU

**HAF 2024**

**CYMDEITHASEG – CYDRAN 1**
**C200N10-1**

© WJEC CBAC Ltd.

**Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn**

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Ltd.

**EDUQAS TGAU CYMDEITHASEG**

**CYDRAN 1: DEALL PROSESAU CYMDEITHASOL**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2024**

**Canllawiau marcio i arholwyr**

**Crynodeb o’r amcanion asesu ar gyfer Cydran 1**

Mae'r cwestiynau yn y papur hwn yn asesu pob un o'r tri amcan asesu – AA1, AA2 ac AA3. Mae'r amcanion asesu yn canolbwyntio ar:

- y gallu i arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol (AA1)
- y gallu i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol (AA2)
- y gallu i ddadansoddi a gwerthuso damcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol er mwyn llunio dadleuon, llunio barn a thynnu casgliadau (AA3)

**Strwythur y cynllun marcio**

Mewn cwestiynau tariff uchel, mae dwy ran i'r cynllun marcio:

- Grid asesu yn dangos bandiau a marciau cysylltiedig y dylid eu dyrannu i ymatebion sy'n arddangos y nodweddion y mae'r amcan(ion) asesu priodol sy'n berthnasol i'r cwestiwn yn gofyn amdanynt.

- Cynnwys dangosol y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw’r cynnwys hwn yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr sôn am yr holl ddeunydd y cyfeiriwyd ato. Dylai arholwyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

Yr arholwyr sydd i benderfynu ar y band (lle mae mwy nag un marc mewn band) a'r marc sydd i'w roi. Mae'r wybodaeth ganlynol yn esbonio sut dylai arholwyr benderfynu ar y band a'r marc i'w roi.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau â'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifydd ar gyfer y band hwnnw. Os yw'r ateb yn cyd-fynd â disgrifydd y band isaf, dylai'r arholwyr symud i’r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i’r ateb. Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb. I grynhoi:

- Y cam cyntaf i'r arholwr yw defnyddio'r cynnwys dangosol a'r grid asesu i benderfynu ar y band cyffredinol.
- Yr ail gam yw penderfynu pa mor amlwg yw'r nodweddion y disgwylir i'r ateb yn y band hwnnw eu cynnwys.
- Yn drydydd, rhoddir marc am y cwestiwn.

Mae rhai cwestiynau tariff uwch yn targedu sawl amcan asesu. Ar gyfer y cwestiynau hyn, os yw ateb yn haeddu dyfarniad o fandiau gwahanol ar gyfer amcanion asesu gwahanol, dylai arholwyr geisio gwobrwyo'r amrywiol nodweddion a welir yn yr ymateb sy’n berthnasol i'r amcanion asesu penodol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Wrth safoni (cynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar nodweddion pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi rhoi marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau nhw â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

Mae cynnwys dangosol i'w weld hefyd ar gyfer cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau. Nid yw'r cynnwys dangosol yn gyflawn, a rhaid rhoi marciau am unrhyw bwyntiau dilys eraill. Er mwyn cyrraedd bandiau uchaf y cynllun marcio nid oes angen i ymgeisydd drafod yr holl bwyntiau sy'n cael eu crybwyll yn y cynnwys dangosol, ond rhaid iddo fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ateb yn haeddu marciau, gan nad yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd o safbwynt y cynllun marcio, neu os nad oes ateb wedi'i roi o gwbl, ni ddylid rhoi marciau.

**Cwestiynau'n cynnwys darnau o destun**

Mae rhai cwestiynau yn cynnwys darnau o destun. Er ei bod hi'n briodol i ymgeiswyr gyfeirio at wybodaeth a ddarperir mewn darnau, ni ddylent gael marciau am ailadrodd darnau o destun yn unig.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 1**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | **4** | | |

**Dewiswch y term priodol o'r blwch i gwblhau'r brawddegau isod.**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffeministiaid | Diwylliant | Bowles a Gintis | Eilaidd | Willis | Swyddogaethwyr |

(a) Mae **........................**yn cyfeirio at ffordd o fyw sy'n cael ei rhannu a'i dysgu. [1]

(b) Mae **........................**yn credu bod y teulu o fantais i'r gymdeithas a'u haelodau. [1]

(c) Mae **........................**yn cyfeirio at ddata ymchwil gafodd eu defnyddio neu eu casglu gan rywun arall yn wreiddiol. [1]

(ch) Roedd **.......................**wedi cyflwyno'r ddamcaniaeth bod ysgolion yn cyfateb (*correspond*) i'r gweithle. [1]

Rhowch un marc am bob ateb cywir

(a) Diwylliant [1]

(b) Swyddogaethwyr [1]

(c) Eilaidd [1]

(ch) Bowles a Gintis [1]

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 2** Darllenwch y darn canlynol ac atebwch y cwestiynau.

| |
|---|
| Mae cymdeithasegwyr yn dadlau bod **rolau rhywedd** wedi'u llunio'n gymdeithasol (*socially constructed*), a'u bod nhw'n ganlyniad i'r ffordd mae'r gymdeithas honno yn eu diffinio. Mewn un gymdeithas, efallai bydd menywod yn aros gartref ac yn gwneud tasgau domestig, ond mewn cymdeithas arall, efallai byddan nhw'n gweithio neu hyd yn oed yn mynd i hela. |

**Cwestiwn 2 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | **2** | | |

**Disgrifiwch beth yw ystyr rolau rhywedd** **[2]**

Rhowch un marc am ddisgrifiad sylfaenol sy'n nodi bod rolau rhywedd yn cyfeirio at ffyrdd disgwyliedig o ymddwyn ar gyfer dynion a menywod.

Rhowch farc ychwanegol am ddisgrifiad mwy datblygedig neu ddisgrifiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol:

- Mae rolau rhywedd wedi'u llunio'n gymdeithasol.
- Mae rolau rhywedd yn cael eu haddysgu gan gyfryngau cymdeithasoli.
- Mae rolau rhywedd yn wahanol mewn cymdeithasau gwahanol.
- Rhowch farciau am gyfeirio at enghreifftiau perthnasol o rolau rhywedd.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

**Cwestiwn 2(b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **1** | **1** | | |

**Nodwch un rôl rhywedd yn y darn uchod**. **[1]**

Rhowch un marc am nodi un rôl rhywedd yn y darn:

- Gall menywod aros gartref.
- Gall menywod wneud tasgau domestig.
- Gall menywod weithio.
- Gall menywod hela.

Dylid rhoi 0 marciau am atebion anghywir neu amherthnasol neu enghreifftiau sydd heb eu cynnwys yn y darn.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 2 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | **2** | | |

**Disgrifiwch un ffordd gall teuluoedd drosglwyddo rolau rhywedd i'w haelodau. [2]**

Rhowch un marc am nodi un ffordd gywir gall teuluoedd drosglwyddo rolau rhywedd i'w haelodau:

- Sianelu neu roi teganau gwahanol i fechgyn a merched.
- Manipiwleiddio neu annog ymddygiad gwahanol gan ferched a bechgyn.
- Modelau rôl.
- Sancsiynau.

Rhowch farc ychwanegol am esboniad mwy datblygedig neu enghraifft o sut gall teuluoedd drosglwyddo rolau rhywedd i'w haelodau. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill.

- Gall bechgyn gael teganau sy'n eu hannog i fod yn wrywaidd a gall merched gael teganau sy'n eu hannog i fod yn fenywaidd.
- Efallai bydd bechgyn a merched yn cael negeseuon gwahanol am ymddangosiad, ymddygiad ac ati.
- Gall tadau weithredu fel modelau rôl i'w meibion a bydd mamau yn gwneud hynny i'w merched.
- Gall teuluoedd gael sancsiynau anffurfiol ar gyfer y rhai sy'n cydymffurfio/ddim yn cydymffurfio â rolau rhywedd, fel dweud y drefn wrthynt.
- Rhowch farciau am gyfeirio at enghreifftiau priodol.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 2(ch)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | **2** | **2** | |

**Esboniwch sut mae dau gyfrwng cymdeithasoli, heblaw am deuluoedd, yn gallu dylanwadu ar rolau rhywedd.** **[4]**

Mae 2 farc ar gael am bob cyfrwng sy'n cael ei esbonio a'i gymhwyso at y cwestiwn.

Os rhoddir mwy na dau gyfrwng, dylid marcio'r holl gyfryngau yn ôl y meini prawf a rhoi'r marc am y ddau gyfrwng â'r marciau uchaf.

Cyfryngau cymdeithasoli eraill a allai effeithio ar rolau rhywedd: ysgolion, grwpiau cyfoedion, y cyfryngau, crefydd, gwaith, ac unrhyw gyfrwng cymdeithasoli perthnasol arall.

**Ysgolion:**

Rhowch un marc am nodi un ffordd gywir mae plant yn cael eu cymdeithasoli i rolau rhywedd mewn ysgolion fel:
- Cwricwlwm cudd a'r negeseuon sy'n cael eu trosglwyddo am rolau rhywedd.
- Mwy o ddynion yn y swyddi uchaf.
- Y ffordd mae gwahanol bynciau yn cael eu portreadu.
- Gall bechgyn ddominyddu ystafelloedd dosbarth.

Rhowch farc ychwanegol am esboniad mwy datblygedig o sut byddai hyn yn cymdeithasoli disgyblion i rolau rhywedd, neu enghreifftiau. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y pwyntiau isod neu bwyntiau perthnasol eraill:
- Gall y cwricwlwm cudd drosglwyddo negeseuon ynghylch sut dylai rhyweddau gwahanol ymddwyn, gwisgo, ac ati, er enghraifft, gall llyfrau darllen bortreadu merched mewn rôl fwy gofalgar.
- Mae dynion yn tueddu i ddominyddu mewn swyddi uchaf yn yr ysgol, fel swydd y pennaeth.
- Gellir portreadu rhai pynciau fel rhai mwy addas ar gyfer bechgyn neu ferched, megis peirianneg, cemeg i fechgyn neu ieithoedd i ferched.
- Tystiolaeth bod bechgyn yn dominyddu'r lle mewn ysgolion, fel meysydd chwarae.

**Grŵp cyfoedion:**

Rhowch un marc am nodi un ffordd gywir mae plant yn cael eu cymdeithasoli i rolau rhywedd mewn grwpiau cyfoedion fel:
- Gall cyfoedion roi pwysau ar fechgyn a merched i ymddwyn mewn ffyrdd penodol.
- Gellir rhoi sancsiynau ar waith os nad ydynt yn cydymffurfio â'r ymddygiadau hyn.
- Efallai bydd safonau dwbl o ran ymddygiad bechgyn a merched.

Rhowch farc ychwanegol am esboniad mwy datblygedig o sut byddai hyn yn effeithio ar rolau rhywedd neu enghreifftiau. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y pwyntiau isod neu bwyntiau perthnasol eraill:
- Gall grwpiau cyfoedion annog merched iau i chwarae gyda doliau ac ati a merched hŷn i ganolbwyntio ar ffasiwn a cholur tra bod bechgyn yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn chwaraeon.
- Gall y rhai sydd ddim yn cydymffurfio wynebu sancsiynau, er enghraifft, efallai bydd bachgen sy'n chwarae gyda doliau yn cael ei osgoi gan ei gyfoedion.
- Yn aml, mae yna safon foesoldeb wahanol rhwng bechgyn a merched ac agweddau tuag at ymddygiad rhywiol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Y Cyfryngau:**

Rhowch un marc am nodi un ffordd gywir mae plant yn cael eu cymdeithasoli i rolau rhywedd gan y cyfryngau fel:

- Gall unigolion yn y cyfryngau weithredu fel modelau rôl.
- Gall y cyfryngau gyflwyno rhyweddau gwahanol mewn ffyrdd sydd wedi'u stereoteipio.
- Gall dynion a menywod gael eu cyflwyno mewn rolau gwahanol.

Rhowch farc ychwanegol am esboniad mwy datblygedig o sut byddai hyn yn effeithio ar rolau rhywedd neu enghreifftiau. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y pwyntiau isod neu bwyntiau perthnasol eraill:

- Efallai bydd bechgyn yn edmygu personoliaethau chwaraeon enwog ac efallai bydd merched yn edmygu modelau tenau, hardd ac yn copïo eu gwisg, ymddygiad ac ati.
- Mae merched yn dal i fod yn fwy tebygol o gael eu portreadu fel pobl sy'n pryderu am eu hymddangosiad tra bod bechgyn yn fwy tebygol o gael eu portreadu fel rhai sydd â diddordeb mewn chwaraeon.
- Gall ffilmiau, gemau fideo, hysbysebu ac ati barhau i gyflwyno menywod mewn rolau benywaidd fel mamau a dynion mewn rolau sy'n fwy seiliedig ar waith.

**Crefydd**

Rhowch un marc am nodi ffordd gywir mae plant yn cael eu cymdeithasoli i rolau rhywedd gan grefydd fel:

- Efallai bydd gwahanol godau gwisg, ymddygiad, yn ymwneud â dynion a menywod.
- Mae dynion yn tueddu i ddominyddu'r swyddi uchaf mewn crefydd.

Rhowch farc ychwanegol am esboniad mwy datblygedig o sut gallai hyn effeithio ar rolau rhywedd neu enghreifftiau. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y pwyntiau isod neu bwyntiau perthnasol eraill:

- Mewn rhai crefyddau, mae codau gwisg llym ar gyfer menywod lle mae'n rhaid iddynt orchuddio eu cyrff, efallai na fydd menywod yn cymysgu'n rhydd ag aelodau o'r rhyw arall nad ydynt yn perthyn iddynt ar ôl iddynt gyrraedd glasoed.
- Mae dynion yn dominyddu mewn llawer o grefyddau. Mae mwy o ddynion yn dal y prif swyddi yn Eglwys Loegr a'r Eglwys Gatholig.

Rhowch farciau am atebion sy'n rhoi un ffordd o ddau gyfrwng cymdeithasoli gwahanol.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 3** Darllenwch y darn canlynol ac atebwch y cwestiynau.

| |
|---|
| Mae addysg yn gyfrwng cymdeithasoli pwysig. Mae plant yn dysgu pynciau ysgol drwy'r cwricwlwm ffurfiol, ond maen nhw hefyd yn dysgu **normau**, gwerthoedd ac agweddau drwy gydol y diwrnod ysgol. |

**Cwestiwn 3 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | | **2** | |

**Esboniwch beth yw ystyr normau.** **[2]**

Rhowch un marc am esboniad sylfaenol sy'n awgrymu mai disgwyliadau neu ganllawiau anysgrifenedig ar gyfer ymddygiad yw normau.

Rhowch un marc arall am ddatblygiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod, neu bwyntiau neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- Mae normau ar gyfer pob sefyllfa mewn bywyd.
- Mae pobl yn cael eu cymdeithasoli i normau drwy gyfryngau cymdeithasoli.
- Mae normau wedi'u llunio'n gymdeithasol ac maent yn amrywio rhwng cymdeithasau a thros amser.
- Rhowch farciau am gyfeirio at enghreifftiau priodol.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

**Cwestiwn 3 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | **4** | |

**Esboniwch ddwy ffordd mae ysgolion yn trosglwyddo normau a gwerthoedd i blant.** **[4]**

Mae 2 farc ar gael ar gyfer pob ffordd sy'n cael ei hesbonio a'i chymhwyso at y cwestiwn.

Os rhoddir mwy na dwy ffordd, dylid marcio'r holl ffyrdd yn ôl y meini prawf a rhoi'r marc am y ddwy â'r marciau uchaf.

Rhowch un marc yr un am esboniad sylfaenol o ffordd gywir mae ysgolion yn trosglwyddo normau a gwerthoedd:

- Modelau rôl.
- Cwricwlwm cudd.
- Sancsiynau.

© WJEC CBAC Ltd.

Rhowch farc ychwanegol yr un am esboniad mwy datblygedig neu enghraifft yn nodi pam mae hyn yn bwysig. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill.

- Gall plant gopïo ymddygiad a barn y rhai maent yn eu hedmygu mewn ysgolion.
- Gall plant dderbyn negeseuon drwy gydol y diwrnod ysgol heb sylweddoli hynny.
- Gall plant gael eu gwobrwyo neu eu cosbi am ymddygiad penodol.
- Rhowch farciau am gyfeirio at enghreifftiau priodol.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 3 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | **4** | | |

**Disgrifiwch ddwy ffordd gall plant gael eu cymdeithasoli i hunaniaethau ethnig gan eu teuluoedd. [4]**

Mae 2 farc ar gael ar gyfer pob ffordd sy'n cael ei hesbonio a'i chymhwyso at y cwestiwn.

Os rhoddir mwy na dwy ffordd, dylid marcio'r holl ffyrdd yn ôl y meini prawf a rhoi'r marc am y ddwy â'r marciau uchaf.

Rhowch un marc am nodi un ffordd gywir mae plant yn cael eu cymdeithasoli i hunaniaethau ethnig gan eu teuluoedd:

- Addysgu ac annog plant i ddilyn eu crefydd.
- Modelau rôl a sancsiynau.
- Dysgu eu hiaith.
- Dilyn traddodiadau, gwyliau ac arferion fel bwyd a gwisg.

Rhowch farc ychwanegol am ddisgrifiad mwy datblygedig o sut byddai hyn yn effeithio ar hunaniaethau ethnig neu enghreifftiau. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill.

- Gall rhieni ymarfer y grefydd gartref a mynd â'r plant i fannau addoli.
- Efallai bydd yn rhaid i blant siarad eu hiaith benodol nhw gartref a gyda'r teulu.
- Efallai bydd sancsiynau os nad yw plant yn dilyn normau a gwerthoedd.
- Gall rhieni ddilyn traddodiadau ac arferion sy'n ymwneud â bwyd a gwisg.
- Rhowch farciau am enghreifftiau perthnasol

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 4 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | | **2** | |

**Esboniwch beth yw ystyr 'teulu cymesur (*symmetrical*)'. [2]**

Rhowch un marc am esboniad sylfaenol sy'n awgrymu bod teulu cymesur yn cynnwys teulu lle mae rolau gwrywod a benywod yn debyg ond nid yn union yr un fath.

Rhowch un marc arall am ddisgrifiad mwy datblygedig neu ddisgrifiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- Efallai na fydd y rolau'n union yr un fath ond mae dynion yn cymryd rhan ym mywyd y cartref ac yn canolbwyntio mwy ar y cartref.
- Nodwyd y math hwn o deulu gan Willmott a Young.
- Mae menywod priod yn fwy tebygol o fynd allan i weithio.
- Mae dynion yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn tasgau domestig a gofal plant.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

**Cwestiwn 4 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | **4** | |

**Esboniwch y safbwynt Swyddogaethol bod teuluoedd yn cyflawni swyddogaethau pwysig. [4]**

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| | **AA2 1a 4 marc** | |
|---|---|---|
| **BAND 2** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth sy'n berthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir a manwl o'r safbwynt Swyddogaethol bod teuluoedd yn cyflawni swyddogaethau pwysig. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn. | **3-4** |
| **BAND 1** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio'n rhannol i esbonio'r safbwynt Swyddogaethol bod teuluoedd yn cyflawni swyddogaethau pwysig. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol a bydd rhai safbwyntiau wedi'u hesbonio'n llai manwl nag eraill a bydd rhai gwallau. | **1-2** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | |

***Cynnwys dangosol***

- Mae teuluoedd yn brif gyfrwng cymdeithasoli ac yn dysgu normau a gwerthoedd i blant a sut i ffitio i mewn i gymdeithas.
- Maent yn bodloni anghenion yr aelodau am ryw a darpariaeth economaidd.
- Maent yn atgenhedlu'r genhedlaeth nesaf.
- Mae cyplau priod yn rhoi cymorth a chefnogaeth emosiynol i'w gilydd.
- Rhowch farciau am gyfeirio at gymdeithasegwyr perthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 4(c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **8** | **4** | **4** | |

**Esboniwch y cynnydd mewn byw yn sengl (*singlehood*) yn y DU gyfoes (*contemporary UK*).** **[8]**

**Dylech chi archwilio o leiaf dau reswm yn eich ateb.**

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

Sylwer – ni ellir rhoi mwy na Band 2 i ymateb nad yw'n rhoi cynnig ar archwilio o leiaf dau reswm.

| **Band** | **AA1 1a ac 1b 4 marc** | | **AA2 1a 4 marc** | |
|---|---|---|---|---|
| **4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol am o leiaf dau reswm dros y cynnydd mewn byw yn sengl yn y DU gyfoes. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth berthnasol am ddau reswm yn cael eu cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir ac yn fanwl pam y bu cynnydd mewn byw yn sengl yn y DU gyfoes. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn | **4** |
| **3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf, am ddau reswm dros y cynnydd mewn byw yn sengl yn y DU gyfoes er y bydd un ffactor yn cael ei ddisgrifio yn llai manwl na'r llall. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth am ddau reswm yn cael eu cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir pam y bu cynnydd mewn byw yn sengl yn y DU gyfoes. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol a bydd un o'r ffactorau hyn wedi'i esbonio'n llai manwl na'r llall | **3** |
| **2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol am ddau reswm yn ymwneud â pham y bu cynnydd mewn byw yn sengl yn y DU gyfoes, er bod rhai gwallau/materion amherthnasol a diffyg datblygiad a manylder, **neu** dangosir gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol, ond dim ond un rheswm yn ymwneud â pham y bu cynnydd mewn byw yn sengl yn y DU gyfoes sy'n cael ei ystyried. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol heb lawer o fanylion. | **2** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth am ddau reswm yn cael eu cymhwyso a'u defnyddio i esbonio pam y bu cynnydd mewn byw yn sengl yn y DU gyfoes, ond heb lawer o ddatblygiad a rhai gwallau, **neu** dim ond un rheswm sydd wedi'i gymhwyso a'i ddefnyddio i esbonio'n gywir a manwl pam y bu cynnydd mewn byw yn sengl yn y DU gyfoes. | **2** |
| **1** | Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig sydd i'w gweld yn yr ateb am y rheswm (rhesymau) pam y bu cynnydd mewn byw yn sengl yn y DU gyfoes. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio pam y bu cynnydd mewn byw yn sengl yn y DU gyfoes yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau | **1** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Dyma rai o'r materion i'w hystyried yn yr esboniad:

- Mae'r newid yn safle menywod yn golygu y gall mwy o fenywod ddilyn gyrfa ac nad ydyn nhw efallai'n teimlo erbyn hyn bod angen priodi am resymau ariannol.
- Efallai bydd gan fenywod flaenoriaethau eraill fel gyrfa, yn hytrach na phriodas a theulu.
- Mae newidiadau mewn normau wedi ei gwneud hi'n dderbyniol i bobl aros yn sengl.
- Oherwydd seciwlareiddio a dirywiad crefydd mae'r rhwystrau crefyddol rhag cyd-fyw wedi mynd erbyn hyn.
- Gall ysgariad wneud pobl yn sinigaidd o briodas.
- Mae atal cenhedlu wedi galluogi pobl i gael rhyw y tu allan i briodas.

- Rhowch farciau am gyfeirio at astudiaethau perthnasol.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 4 (ch)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3 1a ac 1b* |
|---|---|---|---|
| **15** | **4** | **3** | **8** |

**'Mae teuluoedd yn y DU gyfoes yn fwy manteisiol i ddynion nag i fenywod.' Ydych chi'n cytuno â'r safbwynt hwn? [15]**

**Yn eich ateb dylech chi ystyried syniadau a damcaniaethau cymdeithasegol gwahanol i gefnogi eich barn.**

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| Band | AA1 1a ac 1b 4 marc | | AA2 1a 3 marc | | AA3 1a ac 1b 8 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o amrywiaeth o ffactorau yn ymwneud ag a yw teuluoedd yn y DU gyfoes yn fwy manteisiol i ddynion nag i fenywod. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn.<br><br>Rhoddir 3 marc fel yn achos Band 3. | | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o bwysigrwydd cymharol amrywiaeth o ffactorau yn ymwneud ag a yw teuluoedd yn y DU gyfoes yn fwy manteisiol i ddynion nag i fenywod. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, yn berthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **7-8** |
| **3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf o ffactorau sy'n ymwneud ag a yw teuluoedd yn y DU gyfoes yn fwy manteisiol i ddynion nag i fenywod, er y bydd rhai ffactorau'n cael eu disgrifio yn llai manwl nag eraill. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir a yw teuluoedd yn y DU gyfoes yn fwy manteisiol i ddynion nag i fenywod. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n dda. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad da o bwysigrwydd cymharol ffactorau sy'n ymwneud ag a yw teuluoedd yn y DU gyfoes yn fwy manteisiol i ddynion nag i fenywod. Efallai na fydd y rhesymu'n gyson drwyddi draw ond bydd yn gydlynol ac yn berthnasol i gefnogi unrhyw farn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **5-6** |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 1a ac 1b 4 marc | | AA2 1a 3 marc | | AA3 1a ac 1b 8 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o'r ffactor(au) yn ymwneud ag a yw teuluoedd yn y DU gyfoes yn fwy manteisiol i ddynion nag i fenywod, er bod diffyg manylder a gwallau/materion amherthnasol. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol. | **2** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio a yw teuluoedd yn y DU gyfoes yn fwy manteisiol i ddynion nag i fenywod. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol gan y bydd rhai o'r ffactorau hyn wedi'u hesbonio'n llai manwl na'r lleill a bydd gwallau. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o bwysigrwydd ffactor(au) yn ymwneud ag a yw teuluoedd yn y DU gyfoes yn fwy manteisiol i ddynion nag i fenywod. Bydd unrhyw farn neu gasgliad yn arwynebol. | **3-4** |
| **1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o'r ffactor(au) yn ymwneud ag a yw teuluoedd yn y DU gyfoes yn fwy manteisiol i ddynion nag i fenywod. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio a yw teuluoedd yn y DU gyfoes yn fwy manteisiol i ddynion nag i fenywod yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1-2** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | | | |

Cwestiwn ymateb estynedig yw hwn, lle disgwylir i ymgeiswyr gyfuno meysydd gwahanol o wybodaeth, sgiliau a/neu ddealltwriaeth ar draws y cynnwys perthnasol o'r fanyleb. Dylent lunio a datblygu rhesymu cyson sy'n gydlynol, perthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol.

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am y syniadau gwahanol a dod i gasgliad.

© WJEC CBAC Ltd.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol. Dyma rai o'r materion i'w hystyried:

I gefnogi'r farn:

Safbwyntiau ffeministaidd bod priodas yn fwy manteisiol i ddynion:
- Mae menywod yn cyfrannu mwy i'r teulu o ran gwaith domestig, gofal plant, ac ati.
- Theori baich deuol.
- Shifft driphlyg.
- Mae merched yn cael eu cymdeithasoli i rolau rhywedd, gofalgar, o fewn y teulu sy'n cynnal anghydraddoldeb rhywedd.
- Mae menywod yn fwy tebygol o ddioddef cam-drin domestig a thrais.
- Mae teuluoedd yn batriarchaidd ac mae gan ddynion fwy o rym a statws mewn teuluoedd.
- Mae dynion yn ymarfer rheolaeth gymdeithasol dros aelodau benywaidd.
- Tystiolaeth o anghydraddoldeb parhaus o ran rolau rhywedd.

Yn erbyn y safbwynt hwn:
- Gall menywod gael pleser o fagu plant a gallant ddewis y rôl hon.
- Tystiolaeth bod rolau wedi newid.

Swyddogaethwyr:
- Mae teuluoedd yn fanteisiol i'r gymdeithas a'i haelodau.
- Mae'r teulu yn darparu swyddogaethau pwysig i'r gymdeithas a'i haelodau.
- Mae angen rhaniad llafur clir i gyflawni swyddogaethau.

Marcswyr:
- Mae teuluoedd yn fanteisiol i'r dosbarth uchaf, nid dynion.
- Trefnir y teulu i ateb buddiannau cyfalafiaeth ac mae dynion a menywod yn ddioddefwyr.

Dadl:
- A yw teuluoedd yn y DU gyfoes yn fwy manteisiol i ddynion nag i fenywod.
- Tystiolaeth bod dynion yn dal i elwa yn erbyn tystiolaeth bod rolau wedi newid.
- Rhowch farciau am gyfeirio at gymdeithasegwyr.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 5 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | | **2** | |

**Esboniwch un ffordd gall hiliaeth effeithio ar gyflawniad (*achievement*) mewn ysgolion. [2]**

Rhowch un marc am esboniad sylfaenol o sut gall hiliaeth effeithio ar y ffordd mae grwpiau penodol yn teimlo amdanyn nhw eu hunain neu'r ysgol.
Rhowch farc ychwanegol am ddisgrifiad mwy datblygedig o sut gall hyn effeithio ar gyflawniad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- Gall arwain at grwpiau penodol yn cael hunanddelweddau isel.
- Gall arwain at athrawon yn cael disgwyliadau isel.
- Gall arwain at isddiwylliannau gwrth-ysgol.
- Gall arwain at grwpiau penodol yn cael eu rhoi mewn grwpiau gallu is, a'u cofrestru ar gyfer arholiadau gwahanol ac ati.
- Gall arwain at labelu a stereoteipio.
- Rhowch farciau am gyfeirio at ddamcaniaeth/cymdeithasegwyr perthnasol.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 5 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **5** | **5** | | |

**Amlinellwch y safbwynt Marcsaidd bod addysg yn gweithredu er budd cyfalafiaeth (*serves the interests of capitalism*).** **[5]**

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| **Band** | **AA1 5 marc** | |
|---|---|---|
| **3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o'r safbwynt Marcsaidd bod addysg yn gweithredu er budd cyfalafiaeth. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4-5** |
| **2** | Mae gan yr ateb rywfaint o gydlyniad, sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o'r safbwynt Marcsaidd bod addysg yn gweithredu er budd cyfalafiaeth, er bod yna rai pethau anghyson/amherthnasol. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **2-3** |
| **1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o'r safbwynt Marcsaidd bod addysg yn gweithredu er budd cyfalafiaeth, er bod hyn wedi'i nodweddu gan rai anghysonderau a diffyg dealltwriaeth. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | |

***Cynnwys dangosol***

- Safbwynt gwrthdaro ar gymdeithas yw Marcsaeth.
- Mae Marcswyr yn feirniadol iawn o'r system addysg gan ystyried ei bod dan reolaeth y dosbarthiadau uwch ac yn cael ei defnyddio er eu budd nhw.
- Mae ysgolion yn parhau â'r system ddosbarth: Bourdieu a chyfalaf diwylliannol.
- Mae ysgolion yn gwneud i blant ufuddhau a chydymffurfio gan eu paratoi i fod yn weithlu ufudd: Bowles a Gintis, damcaniaeth cyfatebiaeth.
- Gall ysgolion preifat gael cwricwlwm ar wahân a hyfforddi plant o ran sgiliau arwain.
- Mae ysgolion yn cyflwyno 'mythau anferth' eu bod yn feritocrataidd.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 5 (c)**

| Marciau i'w dyrannu: | AA1 1a ac 1b | AA2 1a | AA3 |
|---|---|---|---|
| **8** | **4** | **4** | |

**Esboniwch, gan ddefnyddio enghreifftiau, sut gall y cwricwlwm cudd effeithio ar gyflawniad plant mewn ysgolion. [8]**

***Dylech chi archwilio o leiaf dwy ffordd yn eich ateb.***

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

Sylwer – Ni ellir rhoi mwy na Band 2 i ymateb nad yw'n rhoi cynnig ar archwilio o leiaf dau reswm.

| Band | AA1 1a ac 1b 4 marc | | AA2 1a 4 marc | |
|---|---|---|---|---|
| **4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o ddwy ffordd o leiaf y gall y cwricwlwm cudd effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol o ddwy ffordd wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir ac yn fanwl sut gall y cwricwlwm cudd effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn. | **4** |
| **3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf o ddwy ffordd y gall y cwricwlwm cudd effeithio ar gyflawniad ym myd addysg, er bydd un ffordd yn cael ei disgrifio yn llai manwl na'r llall. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol o ddwy ffordd wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir sut gall y cwricwlwm cudd effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol a bydd un o'r rhesymau hyn wedi'i esbonio yn llai manwl na'r llall. | **3** |
| **2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o ddwy ffordd y gall y cwricwlwm cudd effeithio ar gyflawniad ym myd addysg, er bod rhai gwallau/materion amherthnasol, **neu** dangosir gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol, ond dim ond un ffordd y gall y cwricwlwm cudd effeithio ar gyflawniad ym myd addysg a nodir. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol heb lawer o fanylion. | **2** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol o ddwy ffordd wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio sut gall y cwricwlwm cudd effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. Bydd rhywfaint o ddatblygiad yn yr esboniad o'r ddwy ffordd hyn gyda manylion cyfyngedig a rhai gwallau, neu un ffordd yn unig sydd wedi'i chymhwyso a'i defnyddio i esbonio sut gall y cwricwlwm cudd effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. | **2** |
| **1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o'r ffordd (ffyrdd) y gall y cwricwlwm cudd effeithio ar gyflawniad ym myd addysg. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio'r ffyrdd y gall y cwricwlwm cudd effeithio ar gyflawniad ym myd addysg yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau | **1** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Dyma rai o'r materion i'w hystyried yn yr esboniad:

- Gallai drosglwyddo negeseuon rhywedd i ddisgyblion ynghylch rolau a statws gwrywod a benywod trwy strwythur awdurdod yr ysgol; gwerslyfrau; rhyweddu pynciau; cynlluniau darllen; beth mae'r athrawon yn ei ddweud. Gall hyn olygu fod benywod yn tangyflawni.
- Gall fod o fudd i'r dosbarth uchaf gael plant i dderbyn ac ufuddhau i system anghyfiawn a'u paratoi at waith diflas ac anfoddhaus.
- Gall drosglwyddo negeseuon bod rhai plant o leiafrifoedd ethnig yn gyflawnwyr uchel/isel neu'n debygol o fod yn drafferthus.
- Gall drosglwyddo negeseuon bod disgyblion o ddosbarthiadau cymdeithasol gwahanol yn gyflawnwyr uchel/isel.

Rhowch hyd at Fand 2 am ymatebion sy'n esbonio'r cwricwlwm cudd heb gyswllt penodol â chyflawniad.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 5 (ch)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3 1a ac 1b* |
|---|---|---|---|
| **15** | **4** | **3** | **8** |

**Trafodwch y safbwynt bod cyflawniad yn yr ysgol yn seiliedig ar allu (*ability*) a gwaith caled. [15]**

***Yn eich ateb dylech chi gyfeirio at allu ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill i gefnogi eich barn.***

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| | **AA1 1a ac 1b 4 marc** | | **AA2 1a 3 marc** | | **AA3 1a ac 1b 8 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o amrywiaeth o ffactorau yn ymwneud ag a yw cyflawniad yn yr ysgol yn seiliedig ar allu a dau ffactor arall. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn.<br><br>Rhoddir 3 marc fel yn achos Band 3. | | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o bwysigrwydd cymharol amrywiaeth o ffactorau yn ymwneud â chyflawniad mewn ysgolion. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, yn berthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **7-8** |
| **BAND 3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf o ffactorau sy'n ymwneud ag a yw cyflawniad yn yr ysgol yn seiliedig ar allu, er y bydd rhai ffactorau'n cael eu disgrifio yn llai manwl nag eraill. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio'n gywir i esbonio eu heffaith ar a yw cyflawniad yn seiliedig ar allu. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n dda. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad da o bwysigrwydd cymharol ffactorau yn ymwneud â chyflawniad mewn ysgolion. Efallai na fydd y rhesymu'n gyson drwyddi draw ond bydd yn gydlynol ac yn berthnasol i gefnogi unrhyw farn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **5-6** |

© WJEC CBAC Ltd.

| | AA1 1a ac 1b 4 marc | | AA2 1a 3 marc | | AA3 1a ac 1b 8 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o'r ffactor(au) yn ymwneud ag a yw cyflawniad mewn ysgolion yn seiliedig ar allu, er bod diffyg manylder a gwallau/materion amherthnasol. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol. | **2** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio'n gywir i esbonio eu heffaith ar a yw cyflawniad yn seiliedig ar allu. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol gan y bydd rhai o'r ffactorau hyn wedi'u hesbonio'n llai manwl na'r lleill a bydd gwallau. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o bwysigrwydd y ffactor(au) sy'n gysylltiedig â chyflawniad mewn ysgolion. Bydd unrhyw farn neu gasgliad yn arwynebol. | **3-4** |
| **BAND 1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o'r ffactor(au) yn ymwneud ag a yw cyflawniad mewn ysgolion yn seiliedig ar allu. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio'r effaith ar a yw cyflawniad yn seiliedig ar allu yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1-2** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | | | |

Cwestiwn ymateb estynedig yw hwn, lle disgwylir i ymgeiswyr gyfuno meysydd gwahanol o wybodaeth, sgiliau a/neu ddealltwriaeth ar draws y cynnwys perthnasol o'r fanyleb. Dylent lunio a datblygu rhesymu cyson sy'n gydlynol, perthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol.

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am y syniadau gwahanol a dod i gasgliad.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cynnwys dangosol**

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol. Dyma rai o'r materion i'w hystyried:

I gefnogi'r farn:

Barn swyddogaethol fod ysgolion yn gwobrwyo gallu.
- Barn Parson fod ysgolion yn feritocrataidd ac mae'r rhai mwyaf abl yn llwyddo.
- Mae ysgolion yn gweithredu fel pont rhwng y cartref a'r gymdeithas ehangach ac mae plant yn dysgu bod eu statws yn seiliedig ar gyflawniad.
- Mae'r rhai mwyaf abl yn cael y cymwysterau gorau a'r swyddi uchaf.
- Tystiolaeth bod rhai grwpiau'n gwneud yn dda yn yr ysgol er gwaethaf anfanteision.

Barn yn erbyn:

Safbwynt rhyngweithiadol:
- Mae plant yn cael eu labelu yn yr ysgol ar sail meini prawf sy'n gysylltiedig â dosbarth, ethnigrwydd a rhywedd.
- Gallai labelu disgyblion dosbarth gweithiol /grwpiau ethnig/bechgyn neu ferched yn negyddol arwain at broffwydoliaeth hunangyflawnol, ffurfio isddiwylliannau gwrth-ysgol a thangyflawniad.

Ffactorau materol:
- Gallai amddifadedd materol arwain at dangyflawniad.
- Tlodi a diffyg arian ar gyfer bwyd, deunyddiau, mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref, addysg yn y cartref.
- Efallai na fydd rhai disgyblion yn byw mewn tai digonol oherwydd tlodi.
- A all rhieni fforddio ysgolion preifat neu symud i ddalgylch lle mae 'gwell ysgolion'.

Gallai ffactor diwylliannol effeithio ar sut mae disgyblion yn cyflawni:
- Mae ffactorau diwylliannol yn rhoi rhai grwpiau o dan anfantais.
- Ffactorau diwylliannol yn cynnwys gwerthoedd penodol, codau iaith ac anogaeth rhieni.
- Cyfalaf diwylliannol.
- Gallai'r math o ysgol a fynychir effeithio ar gyflawniad.

Dadl:
- P'un a yw ysgolion yn gwobrwyo'r rhai mwyaf galluog neu a all ffactorau eraill effeithio ar gyflawniad.
- Rhowch farciau am gyfeirio at syniadau ac ymchwil sy'n cyfeirio at ddosbarth, rhywedd ac/neu ethnigrwydd.

**Cwestiwn 6** Darllenwch y darn canlynol ac atebwch y cwestiynau.

| |
|---|
| Mae astudiaeth gymdeithasegol ddiweddar wedi edrych ar fwlio mewn ysgolion er mwyn helpu i ddeall profiadau pobl ifanc. Mae'r ymchwilwyr wedi defnyddio dull cyfweliadau anstrwythuredig gan eu bod nhw eisiau casglu data **ansoddol**. |

**Cwestiwn 6 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | | **2** | |

**Esboniwch beth yw ystyr data ansoddol.** **[2]**

Rhowch un marc am esboniad sylfaenol sy'n awgrymu bod data ansoddol ar ffurf geiriau.

Rhowch farc arall am ddatblygiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- Mae'r data yn cael eu casglu'n bennaf gan gyfweliadau anstrwythuredig ac arsylwi.
- Mae'r data yn tueddu i fod yn fanwl ac yn gallu bod yn fwy dilys na mathau eraill o ddata.
- Rhowch farciau am gyfeirio at enghreifftiau.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

**Cwestiwn 6 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1b* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | **4** | |

**Esboniwch ddau fater moesegol byddai'n rhaid i'r ymchwilwyr eu hystyried ar gyfer yr ymchwil hwn.** **[4]**

Mae 2 farc ar gael ar gyfer bob mater moesegol sydd wedi'i esbonio a'i gymhwyso at y cwestiwn.

Os rhoddir mwy na dau fater moesegol, dylid marcio'r materion i gyd yn unol â'r meini prawf a dyfarnu'r marc am y ddau â'r marciau uchaf.

Rhowch 1 marc yr un am esboniad sylfaenol o fater moesegol y gallai'r ymchwilwyr fod wedi ei wynebu, megis y canlynol neu ffactorau perthnasol eraill:

- Sicrhau bod y plant yn yr ymchwil yn deall bod ganddynt yr hawl i dynnu yn ôl.
- Sicrhau nad oedd y plant yn cael niwed.
- Cael cydsyniad gwybodus y plant.
- Sicrhau cyfrinachedd ac anhysbysrwydd.

Rhowch 2 farc yr un am esboniad mwy datblygedig wedi'i gymhwyso at y cwestiwn fel:

- Gallai'r plant deimlo fod yn rhaid iddynt gymryd rhan yn yr ymchwil gan ei fod yn yr ysgol.
- Efallai byddan nhw'n teimlo'n bryderus neu dan fygythiad gyda phobl nad ydyn nhw'n eu hadnabod ac felly efallai byddan nhw'n cael niwed.
- Efallai byddan nhw'n awyddus i blesio ac yn amharod i dynnu yn ôl.
- Efallai bydd y plant yn pryderu ynghylch gadael i eraill wybod beth sy'n digwydd iddyn nhw.

Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 6 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1b* | *AA3 1a ac 1b* |
|---|---|---|---|
| **12** | **4** | **4** | **4** |

**Trafodwch gryfderau a gwendidau defnyddio holiaduron mewn ymchwil. [12]**

***Dylech chi archwilio o leiaf dau gryfder a dau wendid yn eich ateb.***

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| | **AA1 1a ac 1b 4 marc** | | **AA2 1b 4 marc** | | **AA3 1a ac 1b 4 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol ynghylch o leiaf ddau gryfder a dau wendid defnyddio holiaduron mewn ymchwil. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chyson, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth/dulliau perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir a manwl o'u heffaith ar gryfderau a gwendidau defnyddio holiaduron mewn ymchwil. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn. | **4** | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o gryfderau a gwendidau defnyddio holiaduron mewn ymchwil. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, yn berthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **4** |
| **BAND 3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf o gryfderau a gwendidau defnyddio holiaduron mewn ymchwil, er y bydd rhai wedi'u disgrifio'n llai manwl nag eraill. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth/dulliau perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir o'u heffaith ar gryfderau a gwendidau defnyddio holiaduron mewn ymchwil. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol a bydd rhai o'r rhain wedi'u hesbonio'n llai manwl na'r lleill. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad da o gryfderau a gwendidau defnyddio holiaduron mewn ymchwil. Efallai na fydd y rhesymu wedi'i gynnal drwyddi draw ond bydd yn gydlynol ac yn berthnasol i gefnogi barn a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **3** |

© WJEC CBAC Ltd.

| | AA1 1a ac 1b 4 marc | | AA2 1b 4 marc | | AA3 1a ac 1b 4 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o gryfderau a gwendidau defnyddio holiaduron mewn ymchwil, er bod diffyg manylion a gwallau/materion amherthnasol. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol heb lawer o fanylion. | **2** | Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth/dulliau perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio eu heffaith ar gryfderau a gwendidau defnyddio holiaduron mewn ymchwil. Bydd rhywfaint o ddatblygiad yn yr esboniad ond gyda manylion cyfyngedig a gwallau. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o gryfderau a/neu wendidau defnyddio holiaduron mewn ymchwil. Bydd unrhyw farn neu gasgliad yn arwynebol. | **2** |
| **BAND 1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o gryfder(au) a/neu wendid(au) defnyddio holiaduron mewn ymchwil. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio cryfderau a gwendidau defnyddio holiaduron mewn ymchwil yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1** |
| | Dylid rhoi 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | | | |

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am ddefnyddioldeb holiaduron a dod i gasgliad.

© WJEC CBAC Ltd.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol. Dyma rai o'r materion i'w hystyried wrth lunio dadl:

O ran cryfderau:

- Mae holiaduron yn cynhyrchu data meintiol y gellir eu defnyddio i ddarganfod patrymau/tueddiadau.
- Gellir eu defnyddio i greu ystadegau a graffiau felly mae patrymau/tueddiadau yn hawdd eu hadnabod.
- Mae ymatebwyr yn ateb yr un cwestiynau felly mae modd cymharu atebion.
- Ni ddylent gymryd llawer o amser i'w llenwi, felly efallai bydd pobl yn fwy parod i'w llenwi, gan eu gwneud yn fwy cynrychiadol.
- Maen nhw'n ddienw felly efallai bydd pobl yn fwy tueddol o'u llenwi.
- Maen nhw'n gymharol rhad i'w cynhyrchu felly gellir eu rhoi i nifer fawr o bobl.
- Os defnyddir samplu, dylai hyn eu gwneud yn fwy cynrychiadol.

O ran gwendidau:

- Efallai bydd holiaduron yn isel o ran eu dilysrwydd gan nad ydynt yn galluogi ymatebwyr i esbonio eu hatebion yn fanwl.
- Nid yw data meintiol yn rhoi darlun o'r 'hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd'.
- Gall holiaduron adlewyrchu tuedd y person a luniodd yr holiadur.
- Efallai bydd pobl yn eu llenwi'n gyflym iawn.
- Maen nhw'n tueddu i fod â chyfradd ymateb isel a allai effeithio ar eu cynrychioldeb.



© WJEC CBAC Ltd.